



# Dyfodol Cyfansoddiadol Cymru

## YMATEB GAN CGGC

1. [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.
2. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn dilyn ymgysylltiad â'r sector gwirfoddol. Gwnaeth hyn gynnwys digwyddiad ar y cyd poblogaidd ar gyfer aelodau CGGC a Materion Cyhoeddus Cymru, yn ogystal ag ymgysylltiad digidol ehangach ar draws sectorau. Diolchwn i fudiad Materion Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â'r bobl a fynychodd y digwyddiad neu a fwydodd eu sylwadau ar y cyfansoddiad yn ôl mewn ffyrdd eraill.
3. Mae CGGC yn gwybod bod nifer fawr o fudiadau'r sector gwirfoddol yn teimlo'n gryf ynghylch y cyfansoddiad, er nad hyn yw eu prif ffocws fel arfer. Dengys gwaith ymchwil academiaidd yn betrus fod datganoli wedi bod yn bositif i gymdeithas ddinesig, ac yn bendant, mae cred o fewn y sector fod Llywodraeth Cymru yn fwy hygyrch na San Steffan. Yn wir, gosododd Ddeddf Llywodraeth Cymru ddyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru i gynnal Cynllun Trydydd Sector yn nodi sut bydd y llywodraeth yn ymgysylltu â'r sector, ac ar y pryd, broliwyd mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i gynnwys dyletswydd o'r fath yn ei chyfansoddiad
4. Llywir ein hymateb hefyd gan ein gwaith yn galluogi mudiadau gwirfoddol i ymgysylltu â'r llywodraeth a'r ddeddfwrfa ar lefel Cymru a'r DU dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch lwyddiannus dros ymwreiddio gwaith partneriaeth rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol yn y ddeddfwriaeth sefydlol ar ddatganoli yng Nghymru. Mae CGGC wedi hwyluso ymgysylltiad y sector gwirfoddol o dan y Cynllun Trydydd Sector ers datganoli. Rydym wedi llobio dros strwythurau sy'n cefnogi'r sector gwirfoddol i gyfrannu'n fwy effeithiol at ddiwygiadau dilynol i'r setliad datganoli. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn hyrwyddo egwyddorion tebyg yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.
5. Adlewyrchir pwysigrwydd y gydberthynas hon yn [ein nodau strategol](#). Rydym eisiau gweld mudiadau gwirfoddol yn cael eu cydnabod fel partneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru. Rydym yn ceisio cael mwy o gydweithio ar draws pob sector a democratiaeth sy'n mynd ati'n well i gefnogi mudiadau gwirfoddol i gymryd rhan.

6. Er mwyn cyflawni Nodau Llesiant Cymru – a’r Nodau Datblygu Cynaliadwy – mae angen help pawb. Mae’n gofyn am fodlau llywodraethu sy’n galluogi’r holl randdeiliaid i gydweithio, gan gyfuno adnoddau, gwybodaeth ac arbenigedd. Mae cyfranogiad gweithredol y sector gwirfoddol yn greiddiol i hyn. Mae’r Comisiwn hwn yn gyfle i ystyried sut mae’r mathau hyn o lywodraethu sy’n cefnogi Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn cael eu hadlewyrchu yn ein cyfansoddiad.

## **BETH SY’N GWEITHIO AM EIN CYFANSODDIAD PRESENNOL?**

7. Yn gyffredinol, canmolodd bobl yr ymgysylltu â’r sector gwirfoddol gan Lywodraeth Cymru a’r Senedd.
8. Rydym yn croesawu’r ddyletswydd statudol yn Neddf Llywodraeth Cymru i Weinidogion Cymru lunio [Cynllun Trydydd Sector](#) sy’n nodi sut maent yn bwriadu hybu buddiannau mudiadau gwirfoddol. Hwn yw’r gofyniad cyfansoddiadol cyntaf o’i fath yn y byd.
9. Mae darnau allweddol o ddeddfwriaeth wedi diffinio proses ar gyfer llunio polisiau yng Nghymru sy’n cefnogi cyfranogiad ac sy’n cael ei chefnogi’n gyffredinol gan y sector. Mae’r rhain, yn benodol, yn cynnwys darpariaethau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Ceir hefyd nifer o ddyletswyddau mewn meysydd polisi mwy penodol, yn anad dim, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Er nad yw pob un ohonynt wedi’u rhoi ar waith yn llwyr ar draws yr holl sector cyhoeddus, croesawyd yr egwyddorion eang y tu ôl i ymwreiddio’r agweddau hyn.
10. Yn gyffredinol, teimlwyd fod Llywodraeth Cymru yn rhoi Cymru yn gyntaf wrth wneud penderfyniadau. Mae llywodraeth ddatganoledig wedi cyflwyno mwy o bosibiliadau ar gyfer arloesi, a nodwyd y tâl am fapiau plastig a chael gwared â chamau troi allan heb fai, ynghyd â dull mwy canolbwytiedig posibl o ymdrin â phroblemau. Yn aml, mudiadau gwirfoddol sydd ar reng flaen ymgyrchoedd dros y camau arloesol hyn mewn polisi a deddfwriaeth.
11. Yn gyffredinol, ni wnaeth y mudiadau y gwnaethom ymgysylltu â nhw wrth lunio’r ymateb hwn nodi a ddylai fod mwy neu lai o ddatganoli. Gwnaeth pobl roi sylwadau o bersbectif unigol a lywiwyd gan eu profiad proffesiynol. Gwnaeth cyfran fawr o’r bobl y gwnaethom ymgysylltu â nhw groesawu grym datganoledig. Hoffai lawer gweld datganoli pellach. Fodd bynnag, hoffai lleiafrif bach weld datganoli yn dod i ben.

## **BETH SYDD DDIM YN GWEITHIO AM EIN CYFANSODDIAD PRESENNOL?**

12. Mae’r cyfansoddiad yn galluogi llywodraethau gwahanol ar lefelau’r DU a Chymru i gymryd safiadau gwahanol iawn ar bolisiau. Gall y canlyniadau fod yn annymunol pan fydd cyfrifoldebau ac ysgogiadau yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, nododd unigolyn y cyfnod clo byr a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Nid oedd gan Lywodraeth Cymru’r gallu i dalu costau ffyrlo, a gwrthododd Llywodraeth y DU eu cynnig. Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o bwerau a chyfrifoldebau, ond amlygodd y sefyllfa hon fod meysydd y tu hwnt i’w rheolaeth sy’n cyfyngu eu hopsiynau.

13. Mae tensiynau wedi dod i'r amlwg wrth weithredu'r setliad datganoli nad yw'r cyfansoddiad mewn sefyllfa dda i ymdrin â nhw. Nododd ymatebwyr eu bod yn teimlo bod deddfwriaeth yn cael ei phasio sy'n effeithio ar Gymru, er nad yw Cymru wedi cydsynio â hyn, a bod ymwahaniadau mewn meysydd lle dylai fod cymhwysedd a rennir. Enghraifft a roddwyd oedd cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno Bil Hawliau i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n 'gwbl groes' i'r ffordd y mae'r dirwedd deddfwriaethol yn symud yng Nghymru. Enghraifft arall fyddai Deddf y Farchnad Fewnol, sy'n cyfyngu rhai meysydd y gall Llywodraeth Cymru weithredu o'u mewn a oedd wedi'u datganoli cyn hyn.
14. Yn yr un modd, mae problemau ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn llywio'r gofod mewn meysydd lle mae Cymru yn gweithredu, ond lle gall Llywodraeth y DU ymyrryd – er enghraifft, materion rhyngwladol. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb yng Nghymru dros roi cytundebau rhyngwladol ar waith, ond nid oes gan Lywodraeth Cymru warantau cyfansoddiadol i allu bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu cytundebau o'r fath ar lefel y DU. Dylai Cymru, heb os, gael dull dibynadwy o fwydo i mewn i'r cytundebau hyn, ond nid oes ganddo ar hyn o bryd.
15. Amlygwyd bwyd a ffermio fel meysydd problemus o dan y setliad datganoli presennol, gyda rhai agweddau wedi'u datganoli i Gymru ac eraill heb. Er enghraifft, gall Llywodraeth Cymru basio cyfreithiau sy'n rheoli'r hyn sy'n digwydd ar ffermydd, ond Llywodraeth y DU sy'n pasio cyfreithiau ar fasnach, sy'n golygu nad oes unrhyw ddylanwad gan Gymru dros yr hyn sy'n digwydd i'w bwyd unwaith y mae'n gadael y ffermydd. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod Llywodraeth y DU ar fin pasio deddfwriaeth yn ymwneud â bwyd sydd wedi'i addasu'n genetig, ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad yw'n cytuno â hyn.
16. Mae hon yn enghraifft o faes y mae mudiadau gwirfoddol yng Nghymru wedi bod yn ymgyrchu drosto ers blynyddoedd maith. Mae llwybrau ymgysylltu gyda'r Senedd a Llywodraeth Cymru sy'n gymharol agored. Mae'n anoddach i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru gael clust i'w lleisiau ar lefel y DU. Nid oes llwybr cyfwerth â Chynllun y Trydydd Sector ar gyfer ymgysylltu â Gweinidogion neu adrannau'r DU.
17. Teimlai'r ymatebwyr nad oes gan Gymru ddigon o reolaeth dros feysydd fel buddion, trethi, cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Gall dryswch hefyd godi dros bwy sy'n gyfrifol am beth, a gormod o fiwrocratiaeth a gormod o unedau sefydliadol.
18. Yn y bôn, mae'r sector gwirfoddol yn poeni nad oes dull cyson o gydweithio a datrys tensiynau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Rydym wedi gweld llwyddiannau, fel cyflwyno'r brechlyn, ond yn amlach na heb, ceir tensiwn yn hytrach na chydweithio, hyd yn oed os yw hwnnw'n anfwriadol. Ni chaiff y strwythurau sy'n cefnogi cydberthnasau rhynglywodraethol eu deall yn dda. Nid yw'r broses benderfynu yn teimlo'n dryloyw ac ychydig o gwmpas sydd i ymgysylltu â'r gymdeithas sifil ehangach.
19. Mae pa mor dda y mae ein cyfansoddiad a'n democratiaeth yn gweithredu yn cael ei effeithio gan ffactorau y tu hwnt i'r setliad cyfansoddiadol ei hun. Er enghraifft, mae'r cyfryngau yn chwarae rhan bwysig mewn democratiaeth iach – yn rhannu gwybodaeth ac yn galluogi pobl i gymryd rhan mewn trafodaethau polisi a deddfwriaethol. Mae gwendid y cyfryngau yng Nghymru yn destun pryder. Mae llawer o Gymru yn dibynnu ar gyfryngau Lloegr am eu gwybodaeth. Golyga hyn fod pobl yn

llai ymwybodol o'r polisiau yng Nghymru ac mae'n bosibl nad ydynt yn ymwybodol fod y rhain yn wahanol i'r polisiau a'r ddeddfwriaeth yn Lloegr. Amlygodd un ymatebwr sut mae hyn yn arwain at sefyllfaoedd fel yr un yn ystod y pandemig, pan oedd llawer o bobl sy'n byw yng Nghymru yn clywed mwy gan gyfryngau yn Lloegr am bolisi Llywodraeth y DU na chan gyfryngau yng Nghymru yn egluro polisi Llywodraeth Cymru a'r rheolau yng Nghymru. Un cynnig i fynd i'r afael â hyn oedd ymgyrch gan Lywodraeth Cymru yn atgoffa pobl o beth yn union yw eu pwerau.

20. Gall cyfathrebiadau'r llywodraeth ei hun fod yn rhwystr i gyfranogi hefyd. Weithiau, nid oes digon o Gymraeg Clir / Plain English yng ngwybodaeth ac ymgynghoriadau'r llywodraeth, ac mae hyn yn cyfyngu ar nifer y cyhoedd sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu. Mae'r [Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#), a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig meincnod o ran sut y dylid mynd ati i ymgysylltu.
21. Mae polisiau llywodraethau unigol hefyd yn gwneud gwahaniaeth i ymgysylltu â'r sector gwirfoddol. Weithiau, adlewyrchir hyn mewn deddfwriaeth. Mae llywodraethau diweddar wedi defnyddio dulliau gweithredu gwahanol iawn ar lefelau Cymru a'r DU. Mae'r Llywodraeth Cymru bresennol a'r un diweddar wedi pwysleisio'r rôl unigryw sydd gan fudiadau gwirfoddol i'w chwarae o fewn llywodraethiant ehangach Cymru. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y ddeddfwriaeth a nodwyd uchod ac mewn datganiadau cyhoeddus.
22. I'r gwrthwyneb, mae rhwydweithiau sector gwirfoddol y DU yn poeni'n arw am bolisiau, arferion a deddfwriaeth gan lywodraethau diweddar y DU sy'n cyfyngu llais y sector gwirfoddol yn ein prosesau democrataidd, yn bygwth ein hannibyniaeth ac sy'n lleihau'r gofod sifil ar gyfer gweithredu. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys y Ddeddf Lobïo, Deddf yr Heddlu, a phwysau gwleidyddol amhriodol ar y Comisiwn Elusennau, gan gynnwys wrth benodi ei Gadeirydd. Mae'r pethau hyn yn bygwth y graddau y gall mudiadau gwirfoddol gymryd rhan lawn a chwarae eu rôl mewn democratiaeth iach.
23. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y sector gwirfoddol yng Nghymru yn derbyn swm cymharol is o incwm nac mewn rhannau eraill o'r DU (Gweler [Porth Data CGGC](#)). Mudiadau bach iawn yw'r rhan helaeth o'r sector gwirfoddol, heb lawer o arian, os o gwbl. Ychydig iawn o gapasiti sydd ganddynt i ymhél â'r gwaith o ddatblygu polisiau a deddfwriaethau. Mae hyn hefyd yn destun pryder os yw'r sector gwirfoddol yn mynd i chwarae ei rôl lawn o fewn ein democratiaeth yng Nghymru. Mae gan seilwaith a chyrrff aelodaeth fel CGGC rôl i'w chwarae yma. Rydym yn falch o fod wedi [gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru](#) i helpu i gynyddu gallu ein sector i gymryd rhan mewn meysydd polisi a deddfwriaeth cymhleth.

## **SUT FATH O GYFANSODDIAD DDYLAI FOD GENNYM YN Y DYFODOL?**

24. Dylai cyd-gynhyrchu gael ei ymgorffori yn y cyfansoddiad er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn fwy nag ymarferiad ticio bocs. Mae CGGC yn aelod o'r [Bartneriaeth Llywodraeth Agored \(gwefan Saesneg yn unig\)](#) yng Nghymru. Rydym yn cefnogi egwyddorion agored o gyfranogiad, atebolrwydd a thryloywder yn y llywodraeth a hoffem i'r Comisiwn edrych ar sut y gellir ymwreiddio'r rhain yn ein cyfansoddiad.
25. Yn yr un modd, dylai'r cyfansoddiad feithrin amgylchedd llawer mwy cydweithredol drwy arferion caffael a rhoi grantiau llywodraethol, yn hytrach na thrwy'r modd cystadleuol y mae llawer o brosesau yn ei orfodi ar y rheini sy'n cyflwyno ceisiadau i

ddarparu gwasanaethau ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cyflwyno mwy o gyfleoedd am arloesedd ac yn lleihau gweithio mewn seilos. Byddai ymrwymiad i'r math o deddfwriaeth a amlinellir uchod yn bwynt dechrau defnyddiol ar gyfer hyn. Mae'r sector yn gweld budd yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ac yn rhagweld y gallai hwn helpu o ran y pwyntiau uchod.

26. Mae ymrwymiad i lywodraethu cynhwysol ac, yn benodol, i Gynllun y Trydydd Sector o fewn Deddf Llywodraeth Cymru, wedi bod yn hynod bwysig ac rydym eisiau gweld hyn yn parhau. Hoffem edrych ar ymrwymadau tebyg i gefnogi cyfranogiad â'r Senedd. Hoffem hefyd weld trefniadau o'r fath yn cael eu datblygu rhwng y sector gwirfoddol a Llywodraeth y DU.
27. Dylid rhoi dull gweithredu strwythuredig ar waith i ganiatáu i holl seneddau a llywodraethau'r DU ddysgu o'i gilydd a rhannu arferion gorau. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod yn gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na'n groes i'w gilydd, a'r cyngor gyda llywodraethau datganoledig, a sefydlir ar ôl yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, gan chwarae rôl allweddol. Dylai'r cysylltiadau rhynglywodraethol hyn hefyd fod yn fwy tryloyw ac yn agored i bartneriaeth â sectorau eraill. Mae'n anodd ymgysylltu â nhw ar hyn o bryd.
28. Dylai'r cyfansoddiad sicrhau bod holl fudiadau'r sector gwirfoddol, gan gynnwys mudiadau bach ar lefel llawr gwlad, yn cael cyfle cyfartal i gael eu lleisiau wedi'u clywed gan Lywodraeth Cymru. Eto, amlygwn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yma, yn ogystal â dulliau gweithredu eraill sydd eu hangen i ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus.
29. Dylid edrych ar y syniad o gyfansoddiad ysgrifenedig, drwy ymgysylltu â'r sector gwirfoddol. O'i fewn, gallai gynnwys arferion gorau ar sut dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda'i gilydd. Gallai hefyd gynnwys lle i ddangos sut gall y sector ymgysylltu â'r ddwy lywodraeth, a helpu i warchod yn erbyn newidiadau ffwrdd-â-hi rheolaidd fel rydym wedi bod yn eu gweld yn ddiweddar – er enghraifft, y Fframweithiau Cyffredin sydd, er eu budd posibl i'r ddwy wlad, heb dryloywder. Dylai pob newid mewn deddfwriaeth neu reoliadau, a deddfwriaeth a rheoliadau newydd, gael eu trafod yn effeithiol, gan roi cyfle i'r sector gwirfoddol gymryd rhan.
30. Dylai cyfansoddiad newydd neu ddiwygiedig sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw un o'i egwyddorion ganllaw. I sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn llwyddiant parhaus, mae cyfranogiad a chydweithrediad yn hanfodol wrth weithio ar draws sectorau. Mae datblygu cynaliadwy eisoes wedi'i gynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru; dylid ei gadw a'i gryfhau mewn unrhyw gyfansoddiad newydd.
31. Pa un a gaiff cyfansoddiad ysgrifenedig ei fabwysiadu neu beidio, mae cydberthnasau ar draws ffiniau, nawr ac yn y dyfodol, yn bwysig aruthrol. Mae llawer o drefi a dinasoedd yng Nghymru a Lloegr yn agos iawn at ei gilydd, a bydd cydweithio a thrafod rhwng penderfynwyr yn yr ardaloedd hyn yn parhau i fod yn hanfodol, waeth beth fydd yn digwydd yn y dyfodol.
32. Mae gan lawer o wledydd Ewropeaidd gyrff sy'n dwyn ynghyd y sector gwirfoddol, busnesau ac undebau llafur fel bod ganddynt lais mewn prosesau llunio polisi. Nid oes unrhyw beth o'r fath yn y DU, ond mae gan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus rai o'r elfennau hyn. Byddem yn cefnogi camau i edrych yn fwy trylwyr ar syniad o'r fath yng Nghymru.

33. Mae rhai gwledydd – nodwyd Awstralia fel enghraifft o ran ei dull o reoli ei marchnad fewnol – yn defnyddio dulliau rhynglywodraethol cydweithredol, lle mae llywodraethau canolog a llywodraethau nad ydynt yn ganolog yn cydweithio mewn meysydd polisi sy'n cyflwyno tensiynau a datrysiadau trawsffiniol. Trwy ymgorffori'r math hwn o gorff cydweithredol a thryloyw, cyflwynir y budd ychwanegol o greu fforymau sy'n ei gwneud hi'n haws i randdeiliaid fel mudiadau'r sector gwirfoddol ymgysylltu a rheoli eu llwyth gwaith - rhanddeiliaid a allai fel arall orfod rhannu eu capasiti rhwng gweithredwyr canolog a gweithredwyr nad ydynt yn ganolog. Byddem o blaid archwilio'r syniad hwn ymhellach i weld a allai fod yn addas yng Nghymru ac ar lefel y DU.
34. Dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn ganolog i unrhyw gyfansoddiad yn y dyfodol, yn ysgrifenedig neu fel arall. Mae pob un ohonom yn gweithio tuag at gyflawni'r saith nod llesiant, a byddai'n esgeulustod pur pe bai unrhyw gyfansoddiad yn y dyfodol yn methu â gosod y gwaith hwn wrth ei wraidd.

## **TRAFODAETH BELLACH**

35. Mae CGGC yn fodlon cwrdd â'r Pwyllgor, Llywodraeth Cymru neu Aelodau o'r Senedd i drafod y materion a godwyd yn yr ymateb hwn ymhellach.

David Cook

Swyddog Polisi, CGGC

Gorffennaf 2022

[dcook@wcva.cymru](mailto:dcook@wcva.cymru)

Canva

Ein hymateb

Dyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Rydym wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Dyma ein prif bwyntiau.

1. Mae'r sector yn poeni nad oes dull cyson o gydweithio a datrys tensiynau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU
2. Dylai cyd-gynhyrchu gael ei ymgorffori yn y cyfansoddiad er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn fwy nag ymarferiad ticio bocs.

3. Dylai cyfansoddiad newydd neu ddiwygiedig sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw un o'i egwyddorion canllaw

Gallwch chi ddarllen ein hymateb llawn yn [LINK](#).

—

Twitter

Rydym wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Dyma ein prif bwyntiau. Gallwch ddarllen ein hymateb llawn yn [LINK](#).

—

Annwyl gydweithiwr,

Diolch am gyfrannu at ymateb CGGC i'r ymgynghoriad diweddar ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Rydyn ni wedi cyflwyno ein hymateb terfynol. Gallwch chi ei ddarllen yma. [\[LINK\]](#)

Cofion cynnes.

Dave

Annwyl gydweithiwr,

Diolch am ddod i ddigwyddiad diweddar CGGC a Materion Cyhoeddus Cymru ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Mae CGGC wedi cyflwyno ei ymateb terfynol i'r ymgynghoriad. Gallwch chi ei ddarllen yma. [\[LINK\]](#)

Cofion cynnes.

Dave